# Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol:

## Cyflwyniad i'r Grŵp Cwricwlwm ac Asesu: Rhagfyr 2017

(*Diwygiwyd yn dilyn adborth GCA yn ystod gweithdy Maes Dysgu a Phrofiad 11 Rhagfyr 2017)*

Tabl Cynnwys

Cyflwyniad ........ 3

1. Datganiad sy'n diffinio 'beth sy'n bwysig' yng nghyd-destun y Maes Dysgu a Phrofiad, gan amlinellu sut y bydd y Maes Dysgu a Phrofiad yn cefnogi'r broses o gyflawni'r pedwar diben ........ 4

2. Teitlau diwygiedig ar gyfer meysydd 'Beth sy'n Bwysig' ........ 5

3. Cysyniad allweddol ar gyfer 'Beth sy'n Bwysig' a ddatblygwyd ymhellach ........ 8

## Cyflwyniad

Ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad a oedd yn sôn am ffordd o fynd ati i ddatblygu'r cwricwlwm ac yn rhannu syniadau cynnar am y Meysydd Dysgu a Phrofiad a nodir yn *Dyfodol Llwyddiannus.* Mae'r newyddion diweddaraf hwn ar gyfer mis Ionawr yn disgrifio cam nesaf y broses ddatblygu - nodi 'beth sy'n bwysig' o fewn y chwe Maes Dysgu a Phrofiad.

Mae'r ffordd hon o weithio, sef 'beth sy'n bwysig', yn nodi'r prif elfennau y dylai pob dysgwr eu profi yn ystod eu taith drwy fyd addysg. Mae pedwar diben y cwricwlwm newydd yn greiddiol i'r holl drafodaethau sy'n ymwneud â'r gwaith hwn.

Bydd pob Maes Dysgu a Phrofiad yn cynnwys cyfres o ddatganiadau 'beth sy'n bwysig'. Wrth ddatblygu'r datganiadau hyn, mae'r Arloeswyr wedi gwneud ymchwil manwl a thrylwyr ac wedi gwahodd arbenigwyr i wneud cyflwyniadau ac ymuno yn y trafodaethau o fewn eu grwpiau.

Mae'r ffordd hwn o weithio wedi ei hardystio gan yr Athro Donaldson ac academyddion amlwg eraill. Mae cyfuniad o bapurau academaidd a gomisiynwyd ac ymchwil academaidd eilaidd hefyd wedi cadarnhau'r gred ymysg Arloeswyr a grwpiau cynghori mai dyma yw'r ffordd iawn o fynd ati i ddatblygu'r cwricwlwm yng Nghymru.

Mae'r papurau yn cynnwys fersiynau drafft cychwynnol o ddatganiadau 'beth sy'n bwysig' gyda'r rhesymeg y tu ôl iddynt, sy'n rhoi sail i rannu a thrafod. Maent yn adlewyrchu meddylfryd y Grwpiau Meysydd Dysgu a Phrofiad ym mis Rhagfyr 2017. Fel rhan o broses ailadroddus, bydd y Grwpiau Meysydd Dysgu a Phrofiad yn parhau i fireinio'r datganiadau 'beth sy'n bwysig', ochr â'r gwaith o ddatblygu'r fframweithiau cynnydd ategol, a manylion y Maes Dysgu a Phrofiad.

Wrth i'r gwaith fynd rhagddo, bydd Grŵp Cydlynu sydd newydd gael ei sefydlu, o dan gadeiryddiaeth yr Athro Richard Daugherty, yn sicrhau bod cydlyniaeth a chysondeb ar draws y cwricwlwm. Bydd y grŵp yn datblygu'n grŵp rheoli a fydd yn herio mewn modd beirniadol ar faterion fel maint y cwricwlwm a sut y mae'n cael ei gyflawni, wrth i ragor o wybodaeth ddod ar gael.

### Amlinelliad o'r camau a gymerwyd yn ystod tymor yr hydref 2017

Ystyriodd y grŵp arloesi ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol bapurau a chyflwyniadau gan nifer o arbenigwyr disgyblaethol yn ystod y tymor hwn er mwyn helpu'r syniadaeth o ran datblygu'r 'Beth sy'n Bwysig'. Ar y dechrau, cyflwynodd un o'r arloeswyr, yr Athro Mark Priestley sylwadau ar ddylunio'r cwricwlwm a 'Beth sy'n Bwysig', ar ôl ei weithdy i gynrychiolwyr y Meysydd Dysgu a

Phrofiad. Cyflwynodd Ernest Spencer o CAMAU adroddiad dros dro CAMAU – 'Learning about progression' a oedd yn trafod enghreifftiau o gwricwla a oedd wedi defnyddio dulliau gweithredu tebyg. Comisiynwyd arbenigwyr i leisio eu barn ar 'Beth sy'n Bwysig' yn eu disgyblaethau. Cafwyd adroddiadau a chyflwyniadau gan y canlynol:

Emma Thayer, Darlithydd Drama, Ysgol Addysg, Prifysgol Metropolitan Caerdydd ('Beth sy'n Bwysig mewn Drama');

Cyflwynodd Non Stevens, Rheolwr Cymru, Into Film gyda thri athro arfer gorau 'Beth sy'n Bwysig mewn Ffilm';

Cyflwynodd yr Athro Chris Collins, Pennaeth Cerddoriaeth, Prifysgol Bangor bapur ar 'Beth sy'n Bwysig mewn Cerddoriaeth' a hefyd ystyriodd 'Beth sy'n Bwysig' ym mhob rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad.

I ddechrau ystyriodd y grŵp 'Beth sy'n Bwysig' ym mhob disgyblaeth ac yna, o'r gwaith hwnnw, ystyriodd yr hyn sy'n gyffredin rhwng y disgyblaethau a datblygodd feysydd presennol 'Beth sy'n Bwysig'.

## 1. Datganiad sy'n diffinio 'beth sy'n bwysig' yng nghyd-destun y Maes Dysgu a Phrofiad, gan amlinellu sut y bydd y Maes Dysgu a Phrofiad yn cefnogi'r broses o gyflawni'r pedwar diben

Caiff y Celfyddydau Mynegiannol eu haddysgu drwy archwilio ac arfer, gan arwain at gaffael sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth. Mae 'Gwneud' yn rhan hanfodol o 'Beth sy'n Bwysig' yn y Celfyddydau Mynegiannol ac mae'n hyrwyddo'r pedwar diben drwy gydgysylltu prosesau dysgu creadigol 'archwilio a phrofiad, creu a mynegi, ymateb a myfyrio', - mae'r rhain yn sail i gysyniadau 'Beth sy'n Bwysig'.

Drwy gyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffyrdd a lleoliadau, ennyn chwilfrydedd a herio eu hunain i gymryd risgiau creadigol a gwerthuso'n feirniadol, bydd dysgwyr yn datblygu gwydnwch a hyder i wneud cysylltiadau a defnyddio sgiliau a gwybodaeth mewn gwahanol gyd-destunau er mwyn dod yn **ddysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau**.

Er mwyn dod yn **gyfranwyr mentrus a chreadigol** bydd dysgwyr yn mynegi syniadau ac emosiynau drwy wahanol gyfryngau er mwyn gwella eu bywydau bob dydd eu hunain a bywydau bob dydd eraill; meithrin yr hyder a'r ddealltwriaeth yn eu dysgu eu hunain, grymuso eu hunain i gymryd risgiau pwyllog ac achub ar gyfleoedd fel eu bod yn **barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith**.

Drwy ymwneud ag amrywiaeth o ffurfiau ar gelfyddyd sy'n rhychwantu amser, lle a diwylliant, drwy ddeall a pharchu ymatebion a dehongliadau pobl eraill, bydd dysgwyr yn gwerthfawrogi effaith eu rhyngweithio eu hunain, gan ddod yn **ddinasyddion moesegol a deallus sy'n barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd**.

Drwy gymryd rhan mewn amryw o berfformiadau a phrofiadau celfyddydol mynegiannol, meithrin sgiliau technegol a chymwyseddau personol gan gynnwys hunanymwybyddiaeth a chydweithredu sy'n creu ymdeimlad o hwyl a mwynhad, bydd dysgwyr yn dod yn **unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas**.

## 2. Teitlau diwygiedig ar gyfer meysydd 'Beth sy'n Bwysig'

Gall cyfathrebu artistig fod ar sawl ffurf

Mae dynoliaeth yn adlewyrchu ei hun drwy'r celfyddydau

Mae profiadau creadigol yn cyfoethogi ein bywydau

Mae profiad ac arfer yn datblygu techneg

Mae creadigrwydd ynom i gyd

**Un datganiad 'Beth sy'n Bwysig' ychwanegol**

Mae gwybodaeth am elfennau artistig yn meithrin dealltwriaeth

**Gall cyfathrebu artistig fod ar sawl ffurf**

Dylai dysgwyr allu defnyddio a gwerthfawrogi ffurfiau amrywiol ar y Celfyddydau Mynegiannol fel y gallant gyfleu eu syniadau a'u teimladau, sy'n cyfoethogi eu bywydau drwy ddatblygu hunanfynegiant ac empathi gydag eraill ac ar gyfer eraill.

Mae'r cysyniad hwn yn blaenoriaethu'r broses o ddatblygu sgiliau cyfathrebu, fel artist a chynulleidfa drwy archwilio ffyrdd o gyfleu syniadau, hunaniaeth a theimladau. Mae perthnasedd y cysyniad hwn yn galluogi dysgwyr i gyfathrebu drwy'r celfyddydau ac am y celfyddydau. Mae agwedd gyfathrebu'r cysyniad hwn yn cynnig cyfleoedd i uno disgyblaethau ac annog cysylltiadau â Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill. Mae'r cysyniad hwn yn hyrwyddo'r pedwar diben a gellir ei addysgu ym mhob rhan o'r continwwm o ddysgu.

**Mae dynoliaeth yn adlewyrchu ei hun drwy'r celfyddydau**

Drwy'r Celfyddydau Mynegiannol, bydd dysgwyr yn gallu archwilio a phrofi digwyddiadau hanesyddol, cyfnodau amser a chymdeithas, yn lleol ac yn y byd ehangach fel y gallant feithrin dealltwriaeth o'u hunain ac eraill. Bydd hyn yn cyfoethogi eu bywydau drwy ddatblygu empathi, goddefgarwch a gwerthfawrogiad o bwysigrwydd pob diwylliant.

Mae gan yr elfen hon o'r Celfyddydau Mynegiannol gysylltiadau cryf â **Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau**. Bydd dysgwyr yn archwilio cyd-destun y Celfyddydau Mynegiannol, a byddant hefyd yn meithrin dealltwriaeth o hanes, diwylliant a chymdeithas. Bydd dysgwyr yn ymgysylltu â chelfyddyd sy'n deillio yn uniongyrchol o gyfnodau allweddol mewn amser, symudiadau gwleidyddol a newid cymdeithasol neu a ysbrydolwyd ganddynt. Mae dysgwyr yn ymgysylltu â materion cyfoes mewn ffordd hyddysg ac empathetig. Wrth ddatblygu sgiliau dadansoddi a meddwl yn feirniadol, bydd dysgwyr yn dangos lefel gynyddol o soffistigeiddrwydd a dirnadaeth o'r celfyddydau yng nghyd-destun y byd o'u hamgylch.

**Mae profiadau creadigol yn cyfoethogi ein bywydau**

Bydd dysgwyr yn datblygu hunanymwybyddiaeth wirioneddol a dilys, drwy archwilio'r Celfyddydau Mynegiannol, fel y gallant gynnal a gwella eu llesiant eu hunain. Mae hyn yn cyfoethogi eu bywydau drwy ddod yn unigolion hyderus a gwydn sy'n gallu cynnal eu llwyddiant nhw ac eraill fel dysgwyr gydol oes.

Mae'r cysyniad hwn yn rhoi blaenoriaeth i'r broses o ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar unigolion myfyriol a hyderus. Drwy ymchwilio a dealltwriaeth o'u hunain, bydd dysgwyr yn gallu ymateb i'w creadigrwydd eu hunain ac eraill. Drwy'r Celfyddydau Mynegiannol, bydd y broses o ddatblygu empathi a hyder yn helpu gwydnwch meddyliol, corfforol ac emosiynol dysgwyr, ym mhob agwedd ar eu taith

drwy fywyd. Mewn cyfnodau heriol, bydd dysgwyr yn gallu gwneud cysylltiadau a meithrin y gallu i ddelio'n llwyddiannus â newid.

Mae'r cysyniad hwn wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â **Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant** a gellir ei brofi ym mhob rhan o'r continwwm 3-16.

**Mae profiad ac arfer yn datblygu techneg**

Mae'r datganiad hwn yn canolbwyntio ar y broses o gaffael a datblygu'r sgiliau technegol sy'n ofynnol i ddatblygu yn y Celfyddydau Mynegiannol. Bydd dysgwyr yn caffael amrywiaeth o sgiliau'r Celfyddydau Mynegiannol mewn genres gwahanol, felly byddant yn cymryd rhan gyda sgiliau cynyddol gymhleth a thechnegol, gan wneud cyfraniadau ystyrlon, sy'n cyfoethogi eu bywydau drwy roi cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes parhaus.

Mae'r sgiliau a gaiff eu datblygu drwy'r Celfyddydau Mynegiannol yn ganolog i graidd y pwnc. Caiff y rhain eu datblygu, eu llywio, eu gwella a'u coethi drwy brofiadau amrywiol yn y Celfyddydau Mynegiannol – mae hyn yn dangos bod rhai sgiliau yn amlddisgyblaethol a bod rhai yn benodol i ffurfiau penodol ar gelfyddyd. Bydd y sgiliau trosglwyddadwy a ddatblygir gan y dysgwr, fel datrys problemau, cyfathrebu, cydweithredu, gwerthuso a dadansoddi yn galluogi dysgwyr i gymryd rhan yn llwyddiannus mewn gweithgareddau y tu allan i'r ystafell ddosbarth ac yn eu galwedigaethau yn y dyfodol. Ceir cyfleoedd clir i wahaniaethu, a fydd yn mynd yn fwy cymhleth wrth i ddysgwyr ddatblygu.

Mae'r cysyniad hwn yn hyrwyddo'r pedwar diben a gellir ei addysgu ym mhob rhan o'r continwwm 3-16.

Mae dysgwyr yn cyfansoddi, dyfeisio, creu coreograffi a chreu darnau artistig newydd er mwyn dangos y gallu i archwilio a chreu syniadau gwreiddiol sy'n cyfoethogi eu bywydau drwy allu deall eu hymatebion eu hunain ac eraill.

Mae'r broses o greu syniadau newydd yn meithrin galluoedd dysgwyr i ddewis a blaenoriaethu gwybodaeth am y pwnc drwy ddatblygu ymatebion gwreiddiol drwy ymchwilio a darganfod. Drwy gymryd risgiau ystyriol drwy gydol y broses greadigol, bydd dysgwyr yn dod yn wneuthurwyr penderfyniadau mwy annibynnol a hyderus yn yr ysgol a thu hwnt. Drwy greadigrwydd, gwreiddioldeb a darganfod, yn gynhwysol, byddant yn gallu dangos eu hymatebion a'u datblygiad unigol; mae'n annog dysgwyr i gymryd perchenogaeth o'u syniadau a'u gwaith artistig, gan eu galluogi i fod yn ***ddysgwyr uchelgeisiol a galluog*** ac yn ***gyfranwyr mentrus a chreadigol.***

Mae gan y cysyniad hwn gysylltiadau cryf â Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu drwy gyfathrebu, Iechyd a Llesiant drwy ddatblygu hyder a llesiant emosiynol a chorfforol, y Dyniaethau drwy ddarganfod ysgogiadau presennol amrywiol a Gwyddoniaeth a Thechnoleg drwy ddulliau ymchwilio, creu a chymryd risgiau sy'n gysylltiedig â'r broses greadigol. Gellir addysgu'r cysyniad hwn ym mhob rhan o'r continwwm 3-16.

**'Beth sy'n Bwysig' ychwanegol gyda rhesymeg fras**

**Mae gwybodaeth am elfennau artistig yn meithrin dealltwriaeth**

Rhesymeg fer:

Mae'r datganiad hwn yn annog dysgwyr i drosglwyddo gwybodaeth am ddisgyblaeth benodol mewn cyd-destunau eraill o fewn yr ysgol a thu hwnt.

## 3. Cysyniad allweddol ar gyfer 'Beth sy'n Bwysig' a ddatblygwyd ymhellach

**Mae profiad ac arfer yn datblygu techneg – naratif dilyniant**

Mae'r broses o gaffael sgiliau technegol yn dechrau drwy waith ymchwilio sy'n arwain at reoli elfennau ar wahân o'r ffurf berthnasol ar gelfyddyd e.e. ymateb i sain, gwneud marciau. Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o dechnegau a sgiliau a ddefnyddir i greu allbynnau penodol y Celfyddydau Mynegiannol, e.e. gwaith darlunio ar gyfer digwyddiad/canu cân syml, a byddant yn gofyn ac yn ateb cwestiynau am brofiadau'r Celfyddydau Mynegiannol a fydd yn datblygu yn eu cymhlethdod wrth i'w taith ddysgu fynd rhagddi. Bydd sgiliau cyffredinol yn galluogi dysgwyr i ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau a dulliau o fynegi yn greadigol, fodd bynnag, mae rhai sgiliau yn benodol i ddisgyblaeth. Bydd dysgwyr yn profi'r sgiliau hyn ac yn eu defnyddio/cyfuno er mwyn ateb y diben. Bydd dysgwyr yn ymarfer ac yn mireinio'r sgiliau hyn gyda llai a llai o gymorth, gan ddysgu sut i fyfyrio'n feirniadol ar eu gwaith eu hunain a gwaith eraill. Bydd dysgwyr yn profi celfyddydau mynegiannol a grëwyd gan eraill, sy'n brofiad gwerth chweil ynddo'i hun, ond a fydd hefyd yn ysbrydoli ac yn datblygu gwerthfawrogiad o'r Celfyddydau Mynegiannol. Bydd dysgwyr yn mynd ar daith ddysgu amrywiol sy'n gysylltiedig â'u diwylliannau eu hunain a diwylliannau eraill. Mae'r Celfyddydau Mynegiannol yn cyd-fynd yn naturiol ag iaith a chyfathrebu yn ogystal â chynnig dull gwerthfawr o ddatblygu'r broses o addysgu gwyddoniaeth a thechnoleg (tonnau sain, lliw, celf

amgylcheddol, ffotograffiaeth), mathemateg (rhythmau, cymarebau, cyfrannau, amser, ymwybyddiaeth ofodol), y dyniaethau (cyd-destun diwylliannol, lle ac amser) ac iechyd a llesiant (ymwybyddiaeth ofalgar, symudiad corfforol, ymwybyddiaeth o'r corff, propriodderbyniad).